PRIFYSGOL BANGOR / BANGOR UNIVERSITY

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

# ADRODDIAD BLYNYDDOL SAFONAU'R GYMRAEG

## Awst 2023 – Gorffennaf 2024

# ADRODDIAD BLYNYDDOL SAFONAU'R GYMRAEG PRIFYSGOL BANGOR 2023-24

## RHAGYMADRODD

Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn ar weithrediad y Safonau Iaith Gymraeg ym Mhrifysgol Bangor yn cyfeirio at y cyfnod rhwng 1 Awst 2023 a 31 Gorffennaf 2024.

Mae'r adroddiad yn amlinellu'r camau y mae'r Brifysgol wedi'u rhoi yn eu lle er mwyn sicrhau ei bod yn cydymffurfio â'r Safonau Iaith ac yn tynnu sylw at rai llwyddiannau penodol ac amcanion datblygu ar gyfer y flwyddyn i ddod. Mae copi o Hysbysiad Cydymffurfio Prifysgol Bangor ar ein gwefan.

## DATBLYGU'R GYMRAEG A SICRHAU SYSTEMAU ADRODD CADARN

Mae arfer da mewn perthynas â gweithredu Safonau'r Gymraeg, a sicrhau ein bod yn cynnal ac yn datblygu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, yn ymwneud â gwaith cydymffurfio a datblygu. Mae'r ddwy agwedd yn hollbwysig i lwyddiant y Brifysgol yn y maes hwn.

Bu 2023-24 yn flwyddyn a welodd weithdrefnau'r Brifysgol yng nghyd-destun ei chydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg yn cael eu profi fel rhan o archwiliadau mewnol ac allanol. Roedd yr archwiliad mewnol, a gynhaliwyd gan gwmni Tiaa ym mis Tachwedd, yn adolygiad sicrwydd o'r Gymraeg fel un o brif nodau strategol y Brifysgol. Roedd y modd y mae'r Brifysgol yn gweithredu Safonau'r Gymraeg yn rhan fawr o'r adolygiad. Casglwyd tystiolaeth ysgrifenedig a thystiolaeth lafar gan ystod eang o staff ar weithrediad y Safonau o ddydd i ddydd gan ganolbwyntio ar ddeg Safon yn benodol. Daeth yr archwiliad i'r casgliad bod 'Sicrwydd Sylweddol' ac 'Ni chodwyd unrhyw argymhellion brys, pwysig neu arferol'.

Roedd yr archwiliad allanol, a gynhaliwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg, yn ffrwyth cwblhau holiadur hunanasesiad gan y Brifysgol, archwiliad 'siopwr cudd' a chyfarfod i drafod canfyddiadau a datblygiadau. Unwaith eto, ymatebwyd yn chwim i unrhyw enghraifft o ddiffyg cydymffurfiaeth a amlygwyd yn yr adroddiad siopwr cudd a chafwyd trafodaeth gadarnhaol am waith datblygu'r Brifysgol. Arweiniodd hyn at wahoddiad i gyflwyno ar arferion da mewn seminar i Rwydwaith Sector Addysg y Comisiynydd.

Yn ogystal â chadarnhau cadernid y gweithdrefnau cydymffurfio, bu'r flwyddyn dan sylw yn un a welodd ddatblygu pellach yn y modd y mae gwasanaethau Cymraeg y Brifysgol yn cael eu darparu a'r modd y mae staff a myfyrwyr yn cael eu cefnogi i ddefnyddio'r Gymraeg ac ymhelaethir ymhellach ar ddatblygiadau enghreifftiol yn yr adroddiad.

Yn 2023-24 diweddarwyd Strategaeth y Gymraeg a datblygwyd Cynllun Gweithredu newydd i gefnogi gweledigaeth ac amcanion y strategaeth. Nod Cynllun Gweithredu Strategaeth y Gymraeg yw sicrhau bod nifer o gamau ymarferol yn cael eu cymryd i greu sefydliad gwirioneddol ddwyieithog sy'n rhoi bri

ar y Gymraeg. Mae'r camau hyn yn anelu at roi cyfle i'n holl staff a myfyrwyr ymwneud yn gadarnhaol â'r Gymraeg a theimlo perchnogaeth dros ei lle allweddol ym mywyd y Brifysgol. Mae'r cynllun hefyd yn sicrhau cyfleoedd astudio drwy'r Gymraeg i'n myfyrwyr ar draws pob maes astudio gan roi'r cyfle iddynt ddatblygu eu gallu i ymdrin â'u pynciau yn hyderus yn y Gymraeg. Am tro cyntaf yn 2023-24, cynhaliwyd Gwobrau'r Gymraeg a oedd yn arwydd o fwriad y Brifysgol i annog a dathlu ymwneud cadarnhaol â'r Gymraeg ar draws ein gweithlu. Sefydlwyd y gwobrau er mwyn dathlu cyfraniad timau ac unigolion i hyfywedd a datblygiad y Gymraeg yn y Brifysgol ac i rôl ganolog y Gymraeg yn ein hunaniaeth a'n gwaith o ddydd i ddydd.

Yn 2022-23 roedd 43% o staff yn nodi eu bod yn siarad Cymraeg. Yn 2023-24, mae canran y staff sy'n nodi eu bod yn siarad Cymraeg wedi parhau'n gyson (43%). Mae'n galonogol nodi bod y ganran gyffredinol o siaradwyr Cymraeg ymhlith staff yn aros yn gyson (ac wedi gwneud hynny ers 2021-22).

Rhwng 2019-20 a 2023-24, mae nifer staff yn y Brifysgol wedi gostwng o 1933 i 1768. Mae'n deg nodi mai ymhlith staff sy'n siarad Cymraeg y bu'r gwymp uchaf yn ystod y cyfnod hwn – o 879 yn 2019-20 i 760 yn 2023-24. Wrth i'r sector Addysg Uwch wynebu cyd-destun ariannol heriol, mae gofyn i'r Brifysgol sicrhau bod capasiti sgiliau dwyieithog y gweithlu yn caniatáu iddi wireddu ei hamcan strategol o fod yn sefydliad gwirioneddol ddwyieithog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.

## SAFONAU CYFLENWI GWASANAETH

Mae Prifysgol Bangor yn hyderus ei bod wedi perfformio'n dda wrth gydymffurfio â'r Safonau Cyflenwi Gwasanaethau. Yn greiddiol rhoddir systemau yn eu lle sy'n sicrhau:

- bod staff sy'n siarad Cymraeg yn gweithio mewn derbynfeydd ac ar ddesgiau cymorth;
- bod holl ystod ein gwasanaethau ar gael i fyfyrwyr a staff yn Gymraeg ac i'r cyhoedd lle bo hynny'n berthnasol;
- bod arwyddion yn ddwyieithog;
- bod cyfle i fyfyrwyr a phartneriaid ddefnyddio'r Gymraeg wrth gyflwyno ceisiadau am arian neu wrth dendro i gynnig gwasanaeth;
- bod mecanwaith yn ei lle er mwyn adnabod unrhyw ddiffyg yn ein gwasanaethau

Law yn llaw â sicrhau bod y gwasanaethau yn eu lle, rydym yn cydweithio gyda'n myfyrwyr i sicrhau bod ganddynt wybodaeth lawn am wasanaethau Cymraeg, bod ganddynt yr hyder i'w defnyddio a'u bod yn deall gwerth y sgiliau Cymraeg sydd ganddynt.

Wrth ystyried y datblygiadau a'r gweithgareddau a gafwyd wrth gyflawni, cefnogi a chydnabod gwasanaethau Cymraeg yn ystod 2023-24, tynnir sylw at yr enghreifftiau isod:

### CYFLWYNO A HYBU GWASANAETHAU

- Roedd categori penodol yng Ngwobrau'r Gymraeg ar gyfer Y Gwasanaethau Proffesiynol. Tîm Llesiant a Chefnogi Myfyrwyr, Gwasanaethau Myfyrwyr oedd yn fuddugol a hynny am eu gwaith yn sicrhau gwasanaeth Cymraeg i fyfyrwyr a'u cyfraniad tuag at ddatblygu capasiti cyfrwng Cymraeg ym maes llesiant. Hefyd, dyfarnwyd Gwobrau Cydnabyddiaeth Arbennig i Ddirprwy Gyfarwyddwr Gwasanaethau Technoleg am ei gyfraniad dros nifer fawr o flynyddoedd i isadeiledd ddigidol ddwyieithog y Brifysgol.

- Gwelwyd penllanw prosiect i ddiweddaru gwefan y Brifysgol yn 2023-24 a sicrhau bod gwahanol systemau sy'n bwydo i'r wefan yn 'siarad' gyda'i gilydd a bod gwybodaeth yn gyfredol ar bob cam. Gwnaed ymdrech neilltuol gan y tîm prosiect i sicrhau bod y wybodaeth ar gael yn gyfan gwbl ddwyieithog ac mewn ffordd hygyrch a synhwyrol i fyfyrwyr sy'n siarad Cymraeg ac yn dymuno dilyn eu cyrsiau yn Gymraeg.

- Er mwyn hybu defnydd o wasanaethau Cymraeg, dyluniwyd *lanyards* newydd ar gyfer staff sy'n siarad Cymraeg ac yn dysgu'r iaith. Mae'r dyluniad yn ymgorffori symbol 'Iaith Gwaith' â brandio'r Brifysgol. Mae oddeutu 500 o rai 'Cymraeg' a 300 o rai 'Dysgu Cymraeg' wedi eu dosbarthu yn ystod 2023-24, yn cynnwys mewn sesiynau cynefino ar gyfer staff newydd. Yn ogystal, sicrhawyd bod gan aelodau staff mewn derbynfeydd gyflenwad o'r *lanyards* newydd a phosteri Iaith Gwaith fel rhan o weithgaredd dosbarthu ar ddechrau tymor 2023-24. Dosbarthwyd bathodynnau Iaith Gwaith i aelodau staff nad ydynt yn gwisgo *lanyards* am resymau ymarferol neu yn ymwneud â diogelwch. Diddorol yw nodi bod myfyrwyr hefyd wedi cael cynnig y *lanyards* a bod nifer ohonynt yn dewis eu gwisgo ar y campws.

- Datblygwyd llyfryn gwybodaeth ynglŷn â'r Gymraeg yn y Brifysgol yn ei holl gyd-destunau – o bresenoldeb yr iaith yn yr ardal gyfagos i wybodaeth am ysgoloriaethau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol a llawer mwy. Datblygwyd tudalen newydd ar wefan y Brifysgol gyda'r un wybodaeth, gan ganoli'r wybodaeth mewn un man hygyrch sydd at ddefnydd myfyrwyr, staff, darpar-fyfyrwyr a'u rhieni.

- Cyfeiriwyd at ddatblygu pecyn hyfforddiant mandadol ar y polisi iaith yn yr adroddiad ar gyfer 2022-23. Cwblhawyd y gwaith hwnnw yn Awst 2023 ond bu oedi cyn ei gyhoeddi o ganlyniad i waith ar isadeiledd ddigidol y Brifysgol. Llwyddwyd, fodd bynnag, i ddefnyddio'r adnodd gyda chriwiau penodol wrth gyflwyno hyfforddiant ar ddarparu gwasanaethau yn ddwyieithog.

- Mae Tîm Cefnogi Dysgu ac Addysgu wedi creu adnodd ar gyfer myfyrwyr ar y 'Defnydd Effeithiol o Ddeallusrwydd Artiffisial a ChatGPT'. Mae'r adnodd amserol hwn wedi ei gynnwys ar safleoedd Blackboard yn yr Ysgol Addysg a'r Ysgol Gwyddorau Iechyd yn ogystal â safle Blackboard 'Sgiliau Astudio – Anelu'n Uwch', sy'n agored i bob myfyriwr. Mae aelodau'r tîm hefyd wedi cyflwyno mewn cynadleddau Dysgu ac Addysgu ar eu profiadau o weithio ar greu platfformau dwyieithog gyda chwmnïau rhyngwladol. Maent hefyd wedi cyflwyno sesiynau hyfforddiant i fyfyrwyr fel rhan o weithgareddau rhaglen Sgiliau Ymchwil y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

## CEFNOGI MYFYRWYR I WELD GWERTH Y GYMRAEG A MEITHRIN EU SGILIAU IAITH

- Fel rhan o'r ymdrech i gyplysu'r Gymraeg â Chyflogadwyedd, cynhaliwyd digwyddiad arbennig am y Gymraeg yn ystod gweithgareddau 'Wythnos Cyflogadwyedd' y Brifysgol. Roedd 'Cymraeg yn y Gweithle – dathlu ddwyieithrwydd' yn gyfle i wobrwyo'r myfyrwyr hynny oedd wedi ennill y Tystysgrif Sgiliau Iaith ac i siaradwyr gwadd amlwg rannu eu profiadau nhw o ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith.

- Er mwyn sicrhau bod myfyrwyr sy'n siarad Cymraeg yn cymryd rhan weithredol mewn cynllunio digwyddiadau sydd yn eu hannog i weld gwerth eu sgiliau iaith, cyflogwyd 3 myfyriwr drwy raglen interniaeth y Brifysgol i drefnu a chynnal Ffair Swyddi Cymraeg yn 2024. Gyda chefnogaeth staff Canolfan Bedwyr a'r Gwasanaeth Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd, cafwyd digwyddiad hynod llwyddiannus gyda 33 o gyflogwyr allanol yn bresennol a 78 o fyfyrwyr yn mynychu'r digwyddiad.

## Y GYMRAEG A CHYMUNED EHANGACH Y BRIFYSGOL

Mae'r Brifysgol yn ymwybodol iawn o'i chyfrifoldeb i gyfrannu at ffyniant y Gymraeg yn y gymuned yn ehangach a bod ei pherthnasedd i fywyd bod dydd yn cael ei atgyfnerthu a'i gefnogi gan ei gwaith. I'r diben hwn, rydym yn sicrhau:

- bod y Gymraeg yn amlwg, yn weledol ac yn cael ei defnyddio yn ein digwyddiadau wrth ymgysylltu gyda'r gymuned leol
- ein bod yn datblygu adnoddau dysgu ac addysgu sy'n dyfnhau gallu ein myfyrwyr i ymdrin â'u pwnc yn y Gymraeg yn y Brifysgol ac wedi graddio
- ein bod yn datblygu adnoddau ymarferol i gefnogi'r Gymraeg

Dyma rai o uchafbwyntiau 2023-24:

- Fel rhan o'r cytundeb 3 mlynedd gyda'r Sefydliad Materion Cymreig (IWA), cynhaliwyd digwyddiad cynhadledd 'Pweru Ynys Ynni a'i phobl' ym mharc gwyddoniaeth M-SParc ym mis Hydref 2023. Gydag aelodau'r panel yn cynrychioli mentrau preifat a sefydliadau cyhoeddus ar Ynys Môn, roedd y trafod yn Gymraeg, gyda gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gyfer mynychwyr a chyfranwyr di-Gymraeg. Yn mis Mawrth 2024, cafwyd digwyddiad sylweddol arall, yn trafod perchnogaeth cymunedol yn Tŷ Gwyrddfai, Penygroes, gydag aelodau'r panel yn cynnwys cynrychiolwyr mentrau cymunedol y dalgylch yn ogystal ag arbenigwyr economaidd o'r Brifysgol. Roedd hwn hefyd yn ddigwyddiad naturiol Gymraeg, gyda gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael.

- Cynhaliodd y Brifysgol ei Diwrnod Cymunedol cyntaf yn Hydref 2023, gydag oddeutu mil o fynychwyr yn cymryd rhan mewn ystod eang o weithdai, arddangosfeydd, sesiynau a gweithgareddau stondin. Cafwyd nifer o sesiynau cyfrwng Cymraeg yn ystod y dydd e.e. sesiwn darllen i blant; cyfle i blant cymryd rhan mewn sesiwn sylwebu pêl-droed; stondin Canolfan Bedwyr i drafod ymchwil, gwasanaethau a thechnoleg yn Gymraeg. Gwnaethpwyd ymdrech benodol i sicrhau bod y Gymraeg yn amlwg yn y digwyddiad drwyddo draw – o safbwynt marchnata, cynnwys a staffio.

- Cynhyrchwyd podlediadau oedd yn adnabod bylchau o ran darpariaeth Gymraeg ac yn cefnogi meysydd proffesiynol drwy'r Gymraeg. Mae enghreifftiau yn cynnwys project 'Llond Ceg' gan yr Ysgol Gwyddorau Amgylcheddol a Naturiol yn trafod bwyd Cymreig cynaliadwy a phodlediad 'Am Waith Cymdeithasol', sef yr adnodd Cymraeg cyntaf o'i fath sy'n canolbwyntio ar faterion cyfoes yn gysylltiedig ag ymarfer Gwaith Cymdeithasol

- Darparodd tîm Technolegau Iaith Canolfan Bedwyr, mewn cydweithrediad gyda chwmni Cereproc o'r Alban, 16 o leisiau synthetig Cymraeg ar gyfer Gwasanaeth Iechyd Cymru ar gyfer plant a phobl ifanc yn eu harddegau. Bydd y datblygiad hwn yn gymorth i chwalu'r rhwystrau i gyfathrebu y mae plant Cymru yn eu hwynebu wrth ddefnyddio dyfeisiau cyfathrebu technolegol, trwy roi iddyn nhw leisiau sy'n adlewyrchu pwy ydyn nhw.

## BLAENORIAETHAU DATBLYGU

| CAM GWEITHEDU | CYFRIFOLDEB |
|---|---|
| Sicrhau bod y Gymraeg yn ganolog i waith digideiddio gwasanaethau ac i ddatblygiad siop un stop gwasanaethau proffesiynol. | Prif Swyddog Gweithredol a Phenaethiaid Gwasanaethau Proffesiynol |
| Ail-gyflwyno trefn o gofrestru diofyn ar draws y Brifysgol yn barod ar gyfer blwyddyn academaidd 2025/26. | Gwasanaethau Myfyrwyr / Canolfan Bedwyr / Gwasanaethau Digidol |

| | |
|---|---|
| Sicrhau bod y Gymraeg yn parhau'n amlwg yng ngweithgareddau cyflogadwyedd y Brifysgol. | Tîm Cyflogadwyedd / Canolfan Bedwyr |
| Cydweithio â myfyrwyr i ddeall eu defnydd a'u canfyddiad o wasanaethau Cymraeg. | Canolfan Bedwyr / Undeb ac UMCB |
| Sicrhau bod gwybodaeth am y Gymraeg ym Mangor (e.e. ar ddeunyddiau hyrwyddo) yn parhau i esblygu drwy gydweithio â myfyrwyr ar greu cynnwys newydd a pherthnasol. | Tîm Marchnata / Canolfan Bedwyr |
| Sicrhau bod y Gymraeg yn amlwg wrth adolygu trefniadau Dyddiau Agored. | Tîm Recriwtio / DIG y Gymraeg |

## SAFONAU LLUNIO POLISI

Mae gan Brifysgol Bangor brosesau adrodd clir wrth i bolisïau, strategaethau a chynlluniau newydd gael eu datblygu. Mae rôl Dirprwy Is-ganghellor y Gymraeg yn un sy'n bodoli ers sawl blwyddyn. Mae deilydd y swydd yn aelod o Bwyllgor Gweithredu'r Brifysgol ac yn cadeirio Pwyllgor y Gymraeg a Diwylliant. Mae'r pwyllgor yma yn un o bwyllgorau canolog y Brifysgol a'r cofnodion yn mynd gerbron y Pwyllgor Gweithredu. Mae Ysgrifennydd y Brifysgol hefyd yn aelod o'r pwyllgor hwnnw a'r Pwyllgor Gweithredu. Golyga hyn fod modd amlygu ac eiriol dros faterion yn ymwneud â'r Gymraeg ar haen uwch reolaeth y Brifysgol. Mae Pwyllgor Materion Cymreig y Cyngor, sy'n cael ei gadeirio gan aelod lleyg o'r Cyngor, hefyd yn goruchwylio ein cydymffurfiaeth â'r Safonau ac mae cofnodion yr is-grŵp hwnnw yn mynd i bwyllgor llawn y Cyngor.

Yn ystod 2023-24, cafwyd y datblygiadau canlynol yng nghyd-destun y Safonau Llunio Polisi:

### STRWYTHURAU

- Wrth sefydlu Grŵp Polisi Iaith Gymraeg yn dilyn ad-drefnu pwyllgorau'r Brifysgol (a diddymu Panel Arolygu Safonau'r Gymraeg o ganlyniad), bu cyfle i edrych ar aelodaeth y grŵp newydd a sicrhau bod holl wasanaethau proffesiynol y Brifysgol yn cael eu cynrychioli. Cadeirir y grŵp gan Bennaeth Polisi a Datblygu, Canolfan Bedwyr ac mae'n adrodd i Bwyllgor y Gymraeg a Diwylliant Cymraeg y Brifysgol. Mae cadeirydd y Grŵp Polisi Iaith yn eistedd ar Bwyllgor Cydymffurfio'r Brifysgol.

- Yn 2023/24, llenwyd rôl Deon y Gymraeg ym mhob un o dri Choleg y Brifysgol. Mae'r rôl hon yn helpu i sicrhau amlygrwydd i faterion yn ymwneud â'r Gymraeg ar lefel y Colegau. Mae'r tri Deon yn aelodau o Bwyllgorau Gweithredu eu Colegau ac yn sicrhau bod y Gymraeg a darpariaeth drwy'r Gymraeg yn ystyriaethau allweddol ymhob datblygiad a chynllun.

- Sefydlwyd is-grŵp recriwtio Cymru er mwyn sicrhau ffocws ar y gwaith o ddenu myfyrwyr o Gymru i astudio yn y Brifysgol. Mae cadeirydd y grŵp yn eistedd ar y prif grŵp recriwtio a gadeirir gan y Prif Swyddog Marchnata, sy'n aelod o Bwyllgor Gweithredu'r Brifysgol.

- Yn dilyn penodi Swyddog Datblygu a Hyrwyddo'r Gymraeg yn 22-23, sefydlwyd trefn newydd ar gyfer adrodd a dadansoddi ymholiadau a chwynion cyffredinol gan aelodau o staff yn ymwneud â materion cydymffurfio. Mae hyn wedi galluogi'r tîm i nodi unrhyw fylchau mewn gwybodaeth a chyflwyno ymyriadau hyfforddi penodol i fynd i'r afael â nhw.

### PRIF-FFRYDIO'R GYMRAEG MEWN DATBLYGIADAU NEWYDD

Wrth i Ysgol Feddygol Gogledd Cymru gael ei sefydlu, aethpwyd ati i sicrhau bod staff dysgu a chefnogol cyfrwng Cymraeg yn rhan o strwythur staffio'r ysgol. Yn ogystal, datblygwyd cwrs iaith gorfodol ar gyfer myfyrwyr Cymraeg-eu-hiaith a'r rhai di-Gymraeg fel rhan o'u hastudiaethau blwyddyn gyntaf. Ochr yn ochr â'r sesiynau iaith, cyflwynir gwybodaeth am ymwybyddiaeth iaith a'r cyd-destun statudol ehangach er mwyn paratoi'r darpar-feddygon i weithio yn y GIG yng Nghymru.

- Wrth i'r Brifysgol ddatblygu'r cynllun Llysgenhadon Myfyrwyr, sicrhawyd bod platfform digidol y cynllun ar gael yn ddwyieithog. Darparwyd cyngor polisi a gwasanaethau cyfieithu a phrawfddarllen i'r datblygwyr wrth i'r feddalwedd gael ei hadeiladu. Ochr yn ochr â'r datblygiadau technolegol hyn, darparwyd sesiynau hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith i'r holl fyfyrwyr hynny oedd yn cofrestru i fod yn Llysgenhadon yn 2023-24.

## BLAENORIAETHAU DATBLYGU

Mae'r Brifysgol yn ymwybodol o flaenoriaethau Comisiynydd y Gymraeg ym maes Safonau Llunio Polisi ac yn awyddus i ddatblygu ein gwaith yn y cyd-destun hwn. Dros y flwyddyn i ddod byddwn yn anelu at gryfhau ymhellach y gwaith o sicrhau fod ein polisïau a'n datblygiadau newydd yn gwarchod egwyddorion craidd y Safonau – sicrhau cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

| CAM GWEITHEDU | CYFRIFOLDEB |
|---|---|
| Cyflwyno hyfforddiant ar bob lefel arweinyddol / rheolaethol ar y Safonau Llunio Polisi a'i gweithrediad | Canolfan Bedwyr / Ysgrifennydd y Brifysgol |
| Sicrhau bod gwaith y Brifysgol ym maes y Gymraeg yn cael ei uwcholeuo fel rhan o Adolygiad Gwella Ansawdd y QAA. | Gwasanaethau Myfyrwyr / Canolfan Bedwyr / Gwasanaethau Digidol |
| Gweithredu argymhellion yr adolygiad o aelodaeth a darpariaeth cyfieithu ar y pryd o fewn trefn bwyllgorau'r Brifysgol. | Ysgrifennydd y Brifysgol |
| Gweithredu Cynllun Monitro 10 Safon | Canolfan Bedwyr |

## SAFONAU GWEITHREDU

Mae hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg yn y gwaith wedi bod yn flaenoriaeth i Brifysgol Bangor ers sawl blwyddyn. Fel y soniwyd eisoes, cynhaliwyd noson Gwobrau'r Gymraeg ym mis Ebrill 2024, a hynny fel rhan o raglen dathliadau pen-blwydd y Brifysgol yn 140. Yng nghwmni'r Is-ganghellor ac o dan arweiniad Aled Hughes, cyflwynydd adnabyddus a chyn-fyfyriwr yn y Brifysgol, cyflwynwyd nifer o wobrau yn cydnabod ymdrechion arbennig gan staff sy'n cefnogi defnydd o'r Gymraeg ar hyd a lled y sefydliad.

O safbwynt rhoi'r Safonau Gweithredu ar waith a chefnogi staff i ddefnyddio'r Gymraeg, tynnir sylw at ddatblygiadau perthnasol isod:

### PROSESAU RECRIWTIO

- Cymerodd y Brifysgol ran weithredol – ar lefel ranbarthol a chenedlaethol – yn y broses o fynd i'r afael â'r her o recriwtio siaradwyr Cymraeg i weithleoedd ac annog siaradwyr Cymraeg i wneud defnydd o'u sgiliau. Trwy is-grŵp y Gymraeg Bwrdd Gwasanaethau Lleol Gwynedd a Môn, cynhyrchwyd adroddiad a rhestr wirio at ddefnydd swyddogion iaith a swyddogion adnoddau dynol. Trwy nawdd ARFOR, cynhyrchodd tîm ymchwil o Ysgol Hanes, y Gyfraith a Gwyddorau Cymdeithas y Brifysgol Pecyn Recriwtio Gweithlu Dwyieithog yn rhannu arfer da o ran recriwtio siaradwyr Cymraeg ac yn llunio teipoleg i gefnogi cyflogwyr.

### CYNYDDU DEFNYDD

- Wrth weithio ar y cyd â Deoniaid y Gymraeg yn eu colegau, darparwyd hyfforddiant ar gadeirio cyfarfodydd dwyieithog. Roedd hynny yn ymateb i sylwadau gan aelodau staff a oedd yn teimlo bod deinamig ieithyddol cyfarfodydd penodol dan fygythiad o ganlyniad i gadeirio drwy'r Saesneg yn unig. Yn dilyn cynnal yr hyfforddiant, derbyniwyd adborth gan aelodau staff a oedd yn nodi bod y sefyllfa wedi gwella a bod y cyfleoedd iddynt ddefnyddio eu Cymraeg wedi cynyddu.

- Cafwyd cyfleoedd yn ystod y flwyddyn i staff ddod ynghyd i ddathlu'r Gymraeg ac i gefnogi eu cydweithwyr sy'n dysgu'r iaith. Cynhaliwyd digwyddiad dros ginio yn Pontio i ddathlu diwrnod Shwmae Sumae yn 2023, gyda dros 70 o staff yn galw heibio yn ystod yr awr i gymdeithasu gyda'u cydweithwyr. Cafwyd niferoedd tebyg yn mynychu digwyddiad Dathlu Gŵyl Ddewi yn 2024.

- Mae Sesiynau Sgwrs Cymraeg yn cael eu cynnal yn rheolaidd rhwng parau o staff sy'n hyderus i siarad Cymraeg a'r rhai sy'n dysgu. Mae hyn yn fodd o sicrhau cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i wersi ffurfiol.

- Peilotwyd datblygiadau yn y rhaglen ARFer i newid arferion iaith gyda thimau o staff o fewn y Brifysgol a ledled Cymru. Sicrhawyd cyllid drwy raglen ARFOR i ddatblygu ap i ymgorffori methodoleg y rhaglen a chomisiynwyd cwmni RONDO i ymgymryd â'r gwaith.

- Yn 2023-24 roedd 149 o staff wedi cofrestru ar gyrsiau Cymraeg ac wedi parhau i'w dilyn ar ôl mynegi diddordeb cychwynnol. Mae cynnydd o 20% ers y flwyddyn flaenorol yn y niferoedd a gofrestrodd ar y rhaglen 'Cymraeg Gwaith'. Llwyddodd cyfanswm o 60% o'r staff hynny i ennill cymhwyster Cymraeg i Oedolion CBAC neu lwyddo i ennill tystysgrif Cymraeg Gwaith yn amrywio o lefelau 1-7. Mae lefel y dilyniant parhaus trwy'r lefelau dysgu iaith yn rhagorol ac yn dyst i effeithiolrwydd cyrsiau sydd wedi'u teilwra at anghenion penodol y gweithle.

| **Lefelau dysgu staff 2023-24** | |
|---|---|
| **Lefel 1 / Dechreuwyr** | 47 |
| **Lefel 2 / Mynediad** | 24 |
| **Lefel 3 / Sylfaen** | 22 |
| **Lefel 4 / Canolradd** | 22 |
| **Lefel 5 a 6 / Uwch** | 21 |
| **Lefel 7 / Hyfedredd** | 13 |

- Bu cynnydd o tua 30% yn nifer y staff a ddechreuodd ddysgu a chyrraedd lefel 1 (ynganu yn gywir a defnyddio ymadroddion sylfaenol yn eu gwaith). Yn ogystal, mae'r cynnydd yn y niferoedd ar lefel Sylfaen eleni (22 o'i gymharu â 15 yn 22-23) yn dangos bod y patrwm o barhad drwy'r lefelau sydd wedi'i adeiladu dros y blynyddoedd yn parhau. Mae hyblygrwydd y cynllun a'r dulliau dysgu yn galluogi staff i gadw cydbwysedd rhwng eu gwaith a'r dysgu a gwneud cynnydd da. Mae hyn yn help i sicrhau bod canran uchel o staff yn symud ymlaen i'r lefelau uwch maes o law.

- O ran staff sydd wedi cyrraedd lefelau uwch ar y continwwm dysgu, bu tiwtor yn gweithio'n rheolaidd gyda 12 o unigolion yn darparu sesiynau gramadeg a sesiynau yn gweithio gyda nhw ar dasgau gwaith ysgrifenedig oedd yn rhan o'u gwaith dydd i ddydd ar y pryd.

- O ran y cyd-destun academaidd yn benodol, dilynodd 4 aelod o staff y llwybr 'Cymraeg Gwaith+', a ddatblygwyd yn arbennig ar gyfer y rhai sydd wedi cyrraedd rhuglder ac sydd mewn sefyllfa i ddechrau addysgu yn y Gymraeg a thrwy hynny, ymestyn yr arlwy cyfrwng Cymraeg sydd ar gael i fyfyrwyr.

- Datblygwyd a chynhaliwyd peilot o brosiect newydd ar gyfer staff iaith gyntaf sy'n isel eu hyder yn eu Cymraeg ysgrifenedig. Mae Prosiect X yn defnyddio methodoleg unigryw sydd, ochr yn ochr â'r sesiynau gloywi iaith, yn cynnwys elfennau o hyfforddiant seicolegol a darlithoedd ar y Gymraeg mewn cyd-destunau amrywiol. Gweithiwyd yn ddwys gyda 6 aelod

o staff gan lwyddo i gynnal presenoldeb llawn mewn sesiynau a gweld cynnydd mewn parodrwydd i ddefnyddio’r Gymraeg yn y gwaith.

- Ar y naill law mae’r datblygiadau hyn yn dangos cynnydd yn niferoedd y staff sy’n dechrau ar eu taith iaith trwy ddysgu Cymraeg yn y gwaith ac ar y llaw arall yn amlygu ymdrechion i gryfhau’r ddarpariaeth ar gyfer y rhai sydd ar lefelau uwch, yn cynnwys siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf.

## SGILIAU CYMRAEG STAFF Y BRIFYSGOL AR 31 GORFFENNAF 2024 YN SEILIEDIG AR GATEGORÏAU SWYDDI

### HOLL STAFF Y BRIFYSGOL: SGILIAU SIARAD CYMRAEG

| | Siarad Cymraeg | Dim yn Siarad Cymraeg | Siarad Ychydig | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| **Academaidd** | 214 | 264 | 180 | **658** |
| | 33% | 40% | 27% | **100%** |
| **Academaidd Cysylltiedig** | 134 | 39 | 92 | **265** |
| | 50% | 15% | 35% | **100%** |
| **Clerigol** | 226 | 43 | 84 | **353** |
| | 64% | 12% | 24% | **100%** |
| **Maniwal** | 100 | 69 | 51 | **220** |
| | 45% | 31% | 23% | **100%** |
| **Technegol** | 46 | 20 | 29 | **95** |
| | 48% | 21% | 31% | **100%** |
| **Ymchwil** | 40 | 84 | 53 | **177** |
| | 23% | 47% | 30% | **100%** |
| **Cyfanswm** | **760** | **519** | **489** | **1768** |
| | **43%** | **29%** | **28%** | **100%** |

HOLL STAFF Y BRIFYSGOL: SGILIAU DARLLEN CYMRAEG

| | Gallu darllen Gymraeg | Dim yn gallu darllen Gymraeg | Gallu darllen ychydig yn Gymraeg | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| **Academaidd** | 223 | 285 | 173 | **681** |
| | 33% | 42% | 25% | **100%** |
| **Academaidd Cysylltiedig** | 140 | 48 | 88 | **276** |
| | 51% | 17% | 32% | **100%** |
| **Clerigol** | 234 | 62 | 82 | **378** |
| | 62% | 16% | 22% | **100%** |
| **Maniwal** | 92 | 61 | 49 | **202** |
| | 46% | 30% | 24% | **100%** |
| **Technegol** | 47 | 24 | 30 | **101** |
| | 47% | 24% | 30% | **100%** |
| **Ymchwil** | 43 | 83 | 53 | **179** |
| | 24% | 46% | 30% | **100%** |
| **Cyfanswm** | **779** | **563** | **475** | **1817** |
| | **43%** | **31%** | **26%** | **100%** |

HOLL STAFF Y BRIFYSGOL: SGILIAU YSGRIFENNU CYMRAEG

| | Gallu ysgrifennu yn Gymraeg | Dim yn gallu ysgrifennu yn Gymraeg | Gallu ysgrifennu ychydig yn Gymraeg | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| **Academaidd** | 208 | 316 | 147 | **671** |
| | 31% | 47% | 22% | **100%** |
| **Academaidd Cysylltiedig** | 130 | 69 | 76 | **275** |
| | 47% | 25% | 28% | **100%** |
| **Clerigol** | 218 | 73 | 87 | **378** |
| | 58% | 19% | 23% | **100%** |
| **Maniwal** | 81 | 74 | 44 | **199** |
| | 41% | 37% | 22% | **100%** |
| **Technegol** | 44 | 31 | 26 | **101** |
| | 44% | 31% | 26% | **100%** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Ymchwil** | 39 | 95 | 43 | **177** |
| | 22% | 54% | 24% | **100%** |
| **Cyfanswm** | **720** | **658** | **423** | **1801** |
| | **40%** | **37%** | **23%** | **100%** |

## CYRSIAU DATBLYGU DRWY GYFRWNG Y GYMRAEG

Mae Tîm Datblygu Staff y Brifysgol yn parhau i gynnig pob cwrs a ddatblygir yn fewnol drwy gyfrwng y Gymraeg; yn ogystal mae'r tîm Iechyd a Diogelwch a'r tîm Technoleg Gwybodaeth yn darparu gweithdai yn  Gymraeg a'r Saesneg yn ôl yr angen. Mae nifer o'r cyrsiau a gynigir yn cael eu cynnal fel gweithdai dwyieithog felly gall cofnodi'r union niferoedd o staff a dderbyniodd hyfforddiant proffesiynol drwy'r Gymraeg fod yn heriol.

- Mae ailgyflwyno'r sesiynau cynefino staff newydd ar y campws wedi bod yn llwyddiant yn ystod 2023-24. Mae hyn wedi caniatáu i ni bwysleisio elfennau mwy ymarferol gweithio mewn sefydliad dwyieithog – megis cyfieithu ar y pryd a llif naturiol cyfarfodydd a chyflwyniadau dwyieithog.

- Mae Gweithio Deinamig wedi parhau yn ystod y cyfnod, ac o ganlyniad mae nifer o gyrsiau yn parhau i gael eu cynnal ar-lein yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Mae staff yn dewis iaith wrth logi lle drwy blatfform Adnoddau Dynol / Dysgu iTrent a gyflwynwyd yn ystod 2024 ac mae'r system newydd yn gweithio'n dda.

- Erbyn hyn mae 56 rheolwr wedi cwblhau'r Rhaglen Rheoli Bangor ac mae 40 pellach yn y broses o'i gwblhau. Mae modd i staff sy'n dilyn y rhaglen ddewis mynychu gweithdai cyfrwng Cymraeg ac mae grŵp dysgu gweithredol cyfrwng Cymraeg penodol wedi'i sefydlu, sydd yn rhoi gofod anffurfiol a chyfrinachol i reolwyr drafod ar lafar ymysg ei gilydd. Yn ogystal mae'r rheolwyr yn cael dewis derbyn adborth y prawf seicometreg Myers Briggs yn y Gymraeg. Mae'r gweithdy 'Rheoli mewn Amgylchedd Dwyieithog' yn rhan greiddiol o Rhaglen Rheoli Bangor.

- Yn ystod y cyfnod dan sylw mae llawer o waith wedi digwydd ar y cyd rhwng Adnoddau Dynol a Gwasanaethau Digidol i ddatblygu pecyn hyfforddiant mandadol. Mae hwn yn hyfforddiant sydd angen ei gwblhau gan bob aelod staff yn y Brifysgol, waeth beth fo rôl yr unigolyn. Mae deg modiwl i gyd ac mae wyth ohonynt ar gael yn Gymraeg a Saesneg.

## GOFYNION IAITH SWYDDI A SGILIAU SIARAD CYMRAEG Y RHAI A GAFODD EU PENODI IDDYNT

| CATEGORI SWYDD | GOFYN IAITH | Siarad Cymraeg | Siarad ychydig | Dim yn siarad Cymraeg | Dim gwybodaeth |
|---|---|---|---|---|---|
| **Academaidd** | Hanfodol | 7 | | | 3 |
| | | 70% | 0% | 0% | 30% |
| **Academaidd Cysylltiedig** | Hanfodol | 9 | 1 | | |
| | | 90% | 10% | 0% | 0% |
| **Clerigol** | Hanfodol | 22 | 3 | | |
| | | 88% | 12% | 0% | 0% |
| **Maniwal** | Hanfodol | 1 | | | |
| | | 100% | 0% | 0% | 0% |
| **Technegol** | Hanfodol | 2 | | | |
| | | 100% | 0% | 0% | 0% |
| **Ymchwil** | Hanfodol | 7 | | | |
| | | 100% | 0% | 0% | 0% |
| | | | | | |
| **Clerigol** | Hanfodol neu Barodrwydd i Ddysgu at lefel benodol | 4 | 3 | | |
| | | 57% | 43% | 0% | 0% |
| **Maniwal** | Hanfodol neu Barodrwydd i Ddysgu at lefel benodol | 2 | 1 | | |
| | | 67% | 33% | 0% | 0% |
| **Ymchwil** | Hanfodol neu Barodrwydd i Ddysgu at lefel benodol | 1 | | | |
| | | 100% | 0% | 0% | 0% |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Academaidd** | Dymunol | 8 | 10 | 12 | 4 |
| | | 24% | 29% | 35% | 12% |
| **Academaidd Cysylltiedig** | Dymunol | 6 | 11 | 1 | 2 |
| | | 30% | 55% | 5% | 10% |
| **Clerigol** | Dymunol | 7 | 12 | 6 | 2 |
| | | 26% | 44% | 22% | 7% |
| **Maniwal** | Dymunol | 7 | 3 | | |
| | | 70% | 30% | 0% | 0% |
| **Technegol** | Dymunol | 3 | 2 | 2 | |
| | | 43% | 29% | 29% | 0% |
| **Ymchwil** | Dymunol | 2 | 12 | 12 | |
| | | 8% | 46% | 46% | 0% |
| | | | | | |
| **Academaidd** | Dim gofyn iaith penodol | | 1 | 1 | 21 |
| | | 0% | 4% | 4% | 91% |
| **Ymchwil** | Dim gofyn iaith penodol | | 3 | 13 | 3 |
| | | 0% | 16% | 68% | 16% |
| **Cyfanswm** | | 88 | 62 | 47 | 10 |
| | | 38% | 27% | 20% | 15% |

## CAMAU DATBLYGU

| CAM GWEITHEDU | CYFRIFOLDEB |
|---|---|
| Sicrhau bod y cwrs mandadol ar Bolisi Iaith Gymraeg y Brifysgol ar gyfer staff yn weithredol a chyfranogiad yn cael ei fonitro. | Adnoddau Dynol / Canolfan Bedwyr |

| | |
|---|---|
| Cydweithio gyda UCISA i greu cwrs mandadol Cymraeg newydd ym maes Diogelwch Gwybodaeth. | Gwasanaethau Technoleg / Canolfan Bedwyr |
| Ystyried sut y gellid cryfhau ein prosesau recriwtio a'r Gymraeg ar sail y dystiolaeth a'r argymhellion yn y prosiectau a gynhaliwyd yn 23-24. | Adnoddau Dynol / Canolfan Bedwyr |
| Adeiladu ar ganlyniadau cadarnhaol blwyddyn gyntaf Prosiect X (prosiect i feithrin hyder siaradwyr rhugl) drwy weithio gyda grwpiau pellach o staff a sicrhau dilyniant. | Canolfan Bedwyr |
| Peilota ap ARFer gyda thimau o fewn y Brifysgol. | Canolfan Bedwyr |

## CWYNION

Derbyniwyd tair cwyn ffurfiol o dan y Safonau Cyflenwi Gwasanaethau.

## CASGLIADAU

Fel y nodwyd ar ddechrau'r adroddiad, mae arfer da mewn perthynas â gweithredu Safonau'r Gymraeg yn ymwneud â gwaith cydymffurfio a gwaith datblygu. Yn ystod 2023-24 bu i'r Brifysgol gymryd camau cadarnhaol o ran profi a datblygu ei systemau cydymffurfio. Bu iddi hefyd adeiladu ar nifer y mentrau i ddatblygu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. Bydd y gwaith hwn yn parhau yn 2024-25 drwy ganolbwyntio ar faterion strategol allweddol. Mae hyn yn cynnwys:

- cryfhau'r gwaith o brif ffrydio'r Gymraeg drwy ganolbwyntio ar flaenoriaethau Comisiynydd y Gymraeg yn nghyd-destun y Safonau Llunio Polisi;
- cryfhau llais ein myfyrwyr wrth weithio gyda nhw i ddeall eu hymwneud â gwasanaethau Cymraeg a rhoi cyfle iddynt gyd-gynllunio'r gwasanaethau hynny;
- mireinio ymhellach hyfforddiant iaith i staff a'r cyfleoedd strwythuredig i ddefnyddio'r Gymraeg y tu hwnt i hyfforddiant.

O weithredu'r camau hynny, yng nghyd-destun y Safonau Iaith Gymraeg a'r Cynllun Gweithredu ar gyfer ei Strategaeth Iaith Gymraeg, mae'r Brifysgol yn edrych ymlaen at gynnydd pellach yn 2024-25.

Os hoffech dderbyn gwybodaeth bellach am yr adroddiad hwn, cysylltwch â:

Dr Rhodri Evans
Swyddog Datblygu a Hyrwyddo'r Gymraeg
Canolfan Bedwyr
Prifysgol Bangor
r.l.evans@bangor.ac.uk
(01248) 382525